



Government
Equalities Office

Amrywiadau mewn Nodweddion Rhyw*

Galwad am Dystiolaeth

Ionawr 2019

*Cyfeirir ato weithiau fel rhyngrywiol, gwahaniaethau mewn datblygiad rhyw neu trwy ddefnyddio enw amrywiad penodol.

Cynnwys

Am yr Alwad Hon am Dystiolaeth.....	3
Cyflwyniad.....	9
Beth ydym ni'n ei feddwl wrth sôn am 'amrywiadau mewn nodweddion rhyw'?	9
Faint o bobl yn y Deyrnas Unedig sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw?	10
Safbwynt presennol y Llywodraeth	10
Cwmpas.....	11
Amdanoch Chi	13
Cwestiynau Adran A	16
Pennod 1: Terminoleg.....	17
Pennod 2: Iechyd	18
Pennod 3: Addysg.....	29
Pennod 4: Gwasanaethau/sefydliadau cefnogi.....	33
Pennod 5: Y Gweithle, Budd-daliadau, Chwaraeon a Gwasanaethau Hamdden.....	35
Pennod 6: Aseinio Rhyw, Cofrestru Genedigaeth a Chywiro Tystysgrifau Geni ...	37
Pennod 7: Diwedd glo a'r Cwestiwn Terfynol.....	39
Cwestiynau Adran B	40
Pennod 1: Terminoleg.....	41
Pennod 2: Iechyd	42
Pennod 3: Addysg.....	47
Pennod 4: Gwasanaethau/sefydliadau cefnogi.....	48
Pennod 5: Y Gweithle, Budd-daliadau, Chwaraeon a Gwasanaethau Hamdden.....	50
Pennod 6: Aseinio Rhyw, Cofrestru Genedigaeth a Chywiro Tystysgrifau Geni	51
Pennod 7: Diwedd glo a'r Cwestiwn Terfynol.....	53
Adran C Cwestiynau	54
Pennod 1: Terminoleg.....	55
Pennod 2: Iechyd	56
Pennod 3: Addysg.....	57
Pennod 4: Gwasanaethau/sefydliadau cefnogi.....	58
Pennod 5: Y Gweithle, Budd-daliadau, Chwaraeon a Gwasanaethau Hamdden	59
Pennod 7: Diwedd glo a'r Cwestiwn Terfynol.....	60
Cwestiynau Demograffig.....	61
Grwpiau Cefnogaeth ac Eiriolaeth	64

Am yr Alwad Hon am Dystiolaeth

Pwnc

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn ceisio gwybodaeth am brofiadau ac anghenion pobl yn y Deyrnas Unedig sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw – yr ydym yn eu diffinio fel datblygiad rhyw corfforol sy'n wahanol i'r hyn a ddisgwylir yn gyffredinol mewn menywod a gwrywod. Y nodweddion rhyw sydd dan sylw yma yw amrywiadau genynnol, cromosomaidd, gonadaidd, anatomegol a hormonaidd sy'n digwydd yn naturiol. Mae'n cynnwys diagnosis fel Hyperplasia Adrenal Cynhwynol (neu CAH), Hypospadias, Syndrom Ansensitifrwydd Androgen (AIS), Syndrom Klinefelter a Syndrom Turner, yn ogystal â llawer o rai eraill. Mae hyn yn wahanol i fod yn drawsryweddol neu anneuaid, sy'n ymwneud â hunaniaeth rhywedd unigolyn.

Amrywiadau mewn nodweddion rhyw yw'r term cyffredinol yr ydym wedi ei ddewis ar gyfer yr ymarfer hwn, ond rydym yn ymwybodol hefyd bod termau eraill yn cael eu defnyddio, fel rhyngrywiol a gwahaniaethau datblygiad rhyw.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol, trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a dadansoddi'r dystiolaeth sydd ar gael bod pobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn wynebu problemau penodol yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Rydym am gael gwybod rhagor am y materion hyn i bennu a oes angen ymyrraeth gan y Llywodraeth.

Nid yw'r alwad hon am dystiolaeth yn cyflwyno unrhyw argymhellion am newidiadau polisi a/neu ddeddfwriaethol, ymarfer casglu gwybodaeth yw hwn. Ar ôl i'r alwad am dystiolaeth gau, bydd y Llywodraeth yn adolygu a dadansoddi'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn. Yna byddwn yn cyhoeddi adroddiad am yr hyn a ganfuwyd a datganiad yn nodi unrhyw gamau nesaf.

Hyd

Bydd yr alwad hon am dystiolaeth yn rhedeg am 10 wythnos.

Cynulleidfa

Anelwyd yr alwad hon am dystiolaeth at dri o grwpiau ymateb:

- A. y rhai sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw.** Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn unrhyw un sy'n meddwl eu bod yn bodloni'r diffiniad hwn.
- B. Y rhai sy'n gofalu am bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn bersonol,** fel rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, gofalwyr.
- C. Y rhai sy'n gweithio gyda phobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw neu yn darparu gwasanaethau iddynt yn broffesiynol.** Gallai hyn gynnwys

gweithwyr iechedd proffesiynol, academyddion, athrawon, cyflogwyr, gwasanaethau cefnogi a darparwyr gwasanaethau.

Rhennir y cwestiynau yn yr alwad hon am dystiolaeth yn adrannau A, B ac C ac fe'u dyluniwyd ar gyfer pob un o'r tri grŵp o ymatebwyr uchod. Dim ond y set o gwestiynau sydd fwyaf perthnasol i chi ddylech chi eu hateb.

Rydym yn gofyn i ymatebwyr gyfyngu eu hatebion i 500 gair pan fydd hynny'n bosibl.

Cwmpas daearyddol

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chrosawir ymatebion gan bobl sy'n byw ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Ond, mae'r materion a drafodir yn cynnwys meysydd polisi sydd wedi eu datganoli i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Er mwyn ein helpu i ddadansoddi ymatebion, rydym yn gofyn i ymatebwyr nodi ym mha ran o'r wlad y maent yn byw. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio'n glos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ar yr alwad hon am dystiolaeth. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn cefnogi a rhoi gwybodaeth ar gyfer gwaith y gweinyddiaethau datganoledig yn y maes hwn.

Asesiad effaith

Nid yw'r Llywodraeth wedi cynhyrchu unrhyw asesiad effaith ochr yn ochr â'r alwad hon am dystiolaeth oherwydd nid yw'n gwneud unrhyw gynigion polisi. Petaem yn pennu bod angen newid polisi, bydd asesiad effaith llawn yn cael ei gynhyrchu.

Ymholiadau

Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau am yr alwad hon am dystiolaeth at:

VSC.EVIDENCE@geo.gov.uk.

Gallwch hefyd ysgrifennu at Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn:

Variations in Sex Characteristics

Government Equalities Office – 6th Floor Sanctuary Buildings

20 Great Smith Street

London, SW1P 3BT

Cyfrinachedd yr ymatebion

Rydym yn deall y gall rhoi manylion am eich profiadau personol wrth ymateb i'r cwestiynau fod yn anodd. Rydym yn cymryd hyn yn ddifrifol iawn ac rydym wedi cynnwys rhestr o adnoddau ar ddiwedd y cyhoeddiad hwn i bobl gael cefnogaeth.

Cyn i chi gymryd rhan, dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Mae cymryd rhan yn yr alwad hon am dystiolaeth yn hollol wirfoddol, er ein bod yn awyddus i glywed barn cymaint o bobl â phosibl.

- Rydym am eich sicrhau na fyddwn yn ceisio eich adnabod trwy'r ymatebion y byddwch yn eu rhoi. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn gofyn i chi beidio â rhoi gwybodaeth fydd yn gymorth i'ch adnabod fel enwau, lleoliadau ac ati.
- Dewisol yw'r cwestiynau i gyd. Mae croeso i chi lenwi cymaint ag y dymunwch.
- Ar ddiwedd yr arolwg, byddwn yn gofyn rhai cwestiynau amdanoch chi, fel eich oed, eich ethnigrwydd a'r rhan o'r Deyrnas Unedig yr ydych yn byw ynddi. Mae'r cwestiynau hyn yn ein helpu i ddeall mwy am y modd y mae profiadau pobl yn amrywio, eto, mae'r cwestiynau hyn hefyd yn wirfoddol.

Hysbysiad preifatrwydd

Mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (GEO) am i'r holl ymatebwyr deimlo yn hyderus y bydd unrhyw wybodaeth y byddant yn ei rhannu â ni trwy'r alwad hon am dystiolaeth yn cael ei thrin yn sensitif ac yn gyfrinachol.

Bwriad y canlynol yw esbonio eich hawliau a rhoi'r wybodaeth y mae gennych chi hawl i'w chael dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ("y Ddeddfwriaeth Diogelu Data").

1. Pwy yw ein rheolwr data a manylion cyswllt ein swyddog diogelu data.

Yr Adran Datblygu Rhyngwladol ('yr adran') yw'r rheolwr data. Mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn rhan o'r adran. Gellir cysylltu â'r swyddog diogelu data yn: dataprotection@dfid.gov.uk. Gallwch ddarllen rhagor yma:

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-international-development/about/personal-information-charter>.

2. Pam ein bod ni'n casglu eich data personol

Rydym yn gofyn i chi am wybodaeth fel rhan o'r alwad hon am dystiolaeth i fod yn sail i ddatblygu polisi'r Llywodraeth yn y dyfodol. Byddwn yn dadansoddi'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi er mwyn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r canfyddiadau o'r alwad am dystiolaeth ac yn nodi'r camau nesaf. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir adnabod ymatebwr unigol trwyddi.

Gallwn ddefnyddio dyfyniadau dienw o'ch atebion mewn unrhyw gyhoeddiad ymchwil yn y dyfodol ar y pwnc hwn. Dim ond os byddwch wedi rhoi caniatâd clir i ni wneud hynny y byddwn yn ei wneud.

Nid ydym am gasglu unrhyw wybodaeth a allai eich adnabod chi yn bersonol. Nid ydym yn gofyn am enwau, cyfeiriadau e-bost na chyfeiriadau post ymatebwyr.

Rydym yn gofyn cyfres o gwestiynau am eich manylion demograffig ar y diwedd, ond nid oes raid i chi eu hateb os nad ydych yn dymuno hynny. Bydd casglu'r wybodaeth ddemograffig hon yn ein helpu i ddeall a yw problemau gwahanol yn effeithio ar bobl

â nodweddion gwahanol, fel pobl iau neu hÿn, pobl o rannau gwahanol o'r wlad, a phobl o gefndiroedd crefyddol neu ethnig gwahanol.

Er y byddai'n well gennym i chi beidio â rhoi unrhyw ddata personol, rydym yn cydnabod, yn eu hymatebion i gwestiynau, y gall ymatebwyr roi gwybodaeth y gellid ei defnyddio i'w hadnabod hwy neu bobl eraill trwyddi. Gall hyn fod oherwydd cyfuniad o wybodaeth a roddwyd, y gellid datgelu pwy yw unigolyn trwyddi o bosibl, o'i chyfuno â gwybodaeth arall efallai. Gall peth o'r wybodaeth hefyd fod yr hyn a elwir yn 'ddata categori arbennig', fel gwybodaeth sensitif am ieched.

Byddwn yn dileu unrhyw ddata sy'n amlwg bersonol, fel enwau neu gyfeiriadau, pan fyddwn yn ei dderbyn.

3. Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol

Mae Deddfwriaeth Diogelu Data yn nodi, fel adran o'r llywodraeth, y gall yr adran brosesu data personol fel sy'n angenrheidiol i gyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd yn effeithiol, h.y. galwad am dystiolaeth. Gall yr adran brosesu 'data categori arbennig', fel gwybodaeth am ieched unigolyn y gellir ei adnabod, pan fydd angen am resymau budd cyhoeddus sylweddol.

4. Rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd partion

Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn yr alwad hon am dystiolaeth gyda phrosesydd sydd yn drydydd parti (sefydliad y byddwn yn gofyn iddo ddadansoddi'r ymatebion i ni). Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw brosesydd trydydd parti ddangos: a) ei fod yn cydymffurfio yn llawn ag ymrwymadau diogelu data; a b) ei fod yn cymryd camau i sicrhau bod unrhyw ddata a roddir iddo yn cael ei drin yn sensitif a chyfrifol.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn pobl sy'n byw ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn holi am amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys gofal ieched ac addysg. Mae hyn yn golygu y gallwn fod am rannu ein canfyddiadau gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a/neu ag Adrannau eraill y Llywodraeth. Ni fyddwn yn rhannu eich atebion unigol (ac eithrio dyfyniadau hollol ddienw pan fyddwch wedi rhoi caniatâd i ni). Dim ond gyda'r holl atebion eraill y byddwn yn rhannu ein hasesiad o'ch atebion. Tu hwnt i hyn, ni fyddwn yn rhannu na datgelu unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei darparu oni bai bod gofyn i ni wneud hynny gan y gyfraith.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r GEO yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni ddatgelu gwybodaeth sydd gennym os gofynnir amdani oni bai bod eithriad statudol yn berthnasol. Mae'n ofynnol i ni ystyried pob cais am wybodaeth yn unigol ac felly ni allwn warantu na fydd eich ymatebion yn rhai na chaiff eu datgelu. Ond, rydym am eich sicrhau bod yr eithriadau statudol sydd ar gael fel arfer yn gadael i ni wrthod datgelu gwybodaeth sydd yn bersonol neu gyfrinachol.

Deddf Cydnabod Rhywedd 2004

Os byddwch chi yn rhoi unrhyw wybodaeth am gais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd (GRC), neu eich rhywedd chi (neu rywun arall) cyn cael GRC, diogelir y wybodaeth hon gan adran 22 Deddf Cydnabod Rhywedd 2004, sy'n ei gwneud yn drosedd datgelu'r wybodaeth oni bai bod rhai eithriadau yn berthnasol. Er enghraifft, nid yw'n drosedd datgelu'r wybodaeth os na ellir adnabod unrhyw unigolyn. Pan fydd adran 22 yn berthnasol, bydd y GEO yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio.

Ymatebion sefydliadol

Efallai y byddwn yn cyhoeddi ymatebion a dderbyniwyd gan sefydliadau. Ni fyddwn yn gwneud hyn oni bai bod y sefydliad sy'n ymateb wedi rhoi caniatâd i ni.

5. Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Fel y nodir uchod, byddwn yn dileu unrhyw ddata sy'n amlwg yn bersonol cyn gynted ag y byddwn yn ei dderbyn. Byddwn yn cadw'r wybodaeth arall (ddienw) y byddwch yn ei rhoi am cyn hired ag y mae angen ar gyfer dibenion ein hymchwil a datblygu polisi.

6. Eich hawliau, e.e. mynediad, cywiriadau, dileu

Os byddwn yn cadw unrhyw ran o'ch manylion personol, mae gennych hawl:

- i weld pa ddata sydd gennym amdanoch chi
- i ofyn i ni stopio defnyddio eich data, ond ei gadw fel cofnod
- i gael y cyfan neu gyfran o'ch data wedi ei ddileu neu ei gywiro
- i gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth Annibynnol (ICO) os credwch nad ydym yn trin eich data yn deg neu mewn modd sy'n groes i'r gyfraith.

Gallwch gysylltu â'r ICO yn <https://ico.org.uk/>, trwy ffonio 0303 123 1113, neu trwy'r post yn: ICO, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.

7. Ni fydd eich data personol yn cael ei anfon dramor.

8. Ni fydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llunio unrhyw benderfyniadau awtomataidd.

9. Bydd eich data personol yn cael ei storio mewn system TG ddiogel gan y llywodraeth.

Ymateb ar-lein

Byddai'n well gennym i'r ymatebion gael eu cyflwyno trwy'r ffurflen ymateb ar-lein, y mae dolen ati ar wefan gov.uk.

Dywedwch wrthym os ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli barn sefydliad.

Ffyrdd eraill o ymateb

Gallwch ofyn am gopi caled o'r alwad hon am dystiolaeth, trwy anfon e-bost at VSC.EVIDENCE@geo.gov.uk.

Os byddwch yn cael problemau wrth lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein, gallwch anfon eich ymateb trwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Variations in Sex Characteristics

Government Equalities Office – 6th Floor Sanctuary Buildings

20 Great Smith Street

London, SW1P 3BT

Camau nesaf

Ar ôl i'r alwad am dystiolaeth gau, bydd y Llywodraeth yn adolygu a dadansoddi'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn. Yna byddwn yn cyhoeddi adroddiad am yr hyn a ganfuwyd a datganiad yn nodi unrhyw gamau nesaf.

Cyflwyniad

1. Mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn lansio'r alwad hon am dystiolaeth er mwyn ein helpu i ddeall profiadau ac anghenion pobl yn y Deyrnas Unedig sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn well. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfres o gwestiynau am faterion yr ydym am gael dysgu rhagor amdanynt. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym hefyd wedi cyhoeddi papur technegol sy'n nodi ein dealltwriaeth o'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a'r cyd-destun polisi perthnasol. Gellir gweld y papur technegol ar wefan gov.uk.
2. Mae hwn yn faes polisi cymhleth sy'n dod i'r amlwg, ac mae'n un y mae'r Llywodraeth yn dal i ddatblygu ei hymchwil a'i dealltwriaeth amdano. Rydym yn ymwybodol bod nifer cynyddol o wledydd yn ymwneud â'r materion hyn. Rydym am gasglu rhagor o dystiolaeth er mwyn i ni fedru pennu a oes angen ymyrraeth gan y Llywodraeth yn y Deyrnas Unedig.

Beth ydym ni'n ei feddwl wrth sôn am 'amrywiadau mewn nodweddion rhyw'?

3. Ein diffiniad ar hyn o bryd o'r term 'amrywiadau mewn nodweddion rhyw', a addaswyd o waith ymchwil yn yr Iseldiroedd yw:

term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio datblygiad rhyw corfforol sy'n wahanol i'r hyn a ddisgwylir yn gyffredinol gan 'wrywod' neu 'fenywod'. Mae'r amrywiadau yma yn rhai cynhwynol a gallant fod yn gromosomaidd, gonadaidd, anatomaid neu hormonaidd.¹

4. Mae'r diffiniad hwn yn ymdrin ag amrywiaeth eang o amrywiadau. Gall amrywiad gael ei ddynodi yn ystod beichiogrwydd, ar enedigaeth, neu gall ddod i'r amlwg yn hwyrach yn ystod bywyd, pan fydd merch yn gweld nad yw'n cael misglwyf, er enghraifft. Gall rhai pobl beidio dod i wybod bod ganddynt amrywiad fyth. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall yr amrywiadau mewn nodweddion rhyw fod yn gysylltiedig â diagnosis meddygol sylfaenol. Yn gyffredinol ni fydd hwn yn ddiagnosis â chanlyniadau iechyd tymor hir ond mewn rhai achosion, gall fod felly a bod angen sylw meddygol cyson. Mae ambell ddiagnosis yn effeithio ar wrywod yn unig neu ddim ond ar fenywod, ond gall diagnosis arall effeithio ar y ddau ryw. Gellir cael rhagor o fanylion yn y papur technegol.
5. Rydym wedi mabwysiadu'r diffiniad eang hwn ar ôl ymgynghori yn drylwyr â sefydliadau rhanddeiliaid (sy'n cefnogi unigolion sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw) a thrwy astudio llenyddiaeth academiaidd. Ond rydym yn cydnabod bod y derminoleg yn y maes hwn yn esblygu ac mae sawl barn wahanol. Yn nes ymlaen mae cyfle i chi rannu eich barn am y term yr ydym wedi ei ddefnyddio.

¹ Addaswyd y diffiniad hwn o van Lisdonk, J. (2014) *Living with intersex/DSD: an exploratory study of the social situation of persons with intersex/DSD*. The Netherlands Institute for Social Research. 2014- 23. Ar gael yn: https://www.scp.nl/english/Publications/Publications_by_year/Publications_2014/Living_with_intersex_DSD

Faint o bobl yn y Deyrnas Unedig sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

6. Nid oes amcangyfrif cadarn o'r nifer o bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn y Deyrnas Unedig. Mae nifer o resymau am hyn. Yn gyntaf, fel yr amlinellir uchod, i rai pobl, efallai na fydd yr amrywiad fyth yn amlwg. Yn ail, efallai na fydd rhai pobl yn datgelu gwybodaeth pan ofynnir amdani. Yn drydydd, nid oes diffiniad na dull cyson o gasglu data am bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw. Amcangyfrifir gan yr ymchwil clinigol sy'n bodoli 'gall cyffredinrwydd organau rhywiol annodweddiadol ar enedigaeth plant fod mor uchel ag 1 mewn 300 o enedigaethau, ond mae'n bosibl bod cyffredinrwydd cyflwr a all arwain at amwysedd rhywedd ar enedigaeth plant fod mor isel ag 1 mewn 5000 o enedigaethau.¹²

Safbwynt presennol y Llywodraeth

7. Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi adolygu'r ymchwil perthnasol o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Rydym hefyd wedi casglu tystiolaeth am brofiadau pob dydd pobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw trwy nifer o gyfarfodydd â rhanddeiliaid. Yn ogystal â hyn, rydym wedi edrych ar y data a gafwyd trwy Arolwg Cenedlaethol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol 2017, er ein bod yn cydnabod bod cwrmpas a dyluniad yr arolwg wedi eu bwriadu yn benodol i ddeall profiadau'r rhai sy'n cysylltu eu hunain â chyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth ryweddol leiafrifol. Yn ychwanegol, yn yr ymgynghoriad diweddar ar ddiwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd cynhwyswyd cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr pa newidiadau yr oeddent yn meddwl sy'n angenrheidiol i'r system gydnabod rhywedd gyfreithiol er mwyn bod o fudd i bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi yn hwyrach eleni.
8. Er mwyn ein helpu i ddeall y problemau a wynebir gan unigolion a'u teuluoedd, cynhaliodd y GEO gyfarfodydd gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys pobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw, sefydliadau cefnogi, academyddion a Seneddwyr, yn ogystal â gweithwyr clinigol proffesiynol fel seicolegwyr ac endocrinolegwyr. Yn ychwanegol, cyfarfuom ag academyddion rhyngwladol yng Ngwlad Belg, yr Iseldiroedd ac Awstralia a buom mewn cynhadledd ym Mhrifysgol Bologna. Dysgasom hefyd am ddull Malta trwy gyfarfod â sefydliadau cymdeithas sifil o Falta a swyddogion o Lywodraeth Malta.
9. Casglasom ddealltwriaeth ddefnyddiol o brofiadau pobl o ryngweithio â'r system gofal iechyd, barn am derminoleg a rôl grwpiau cefnogi trwy'r broses hon ond nid

¹²Dyffynwyd o Ahmed SF, Achermann JC, Arlt W, Balen A, Conway G, Edwards Z, a Miles H (2016). Society for Endocrinology UK guidance on the initial evaluation of an infant or an adolescent with a suspected disorder of sex development (Diwygiad 2015). *Clinical Endocrinology*. 2016;84(5):771-788. Sail yr amcangyfrifon yw i) Ahmed SF, Dobbie R, Finlayson AR, Youngson G, Chalmers J, Stone D (2004) Regional & temporal variation in the occurrence of genital anomalies amongst singleton births, 1988–1997 Scotland. *Archives of Disease Childhood*, 89, F149–F151.; a ii) Thyen U, Lanz K, Holterhus PM, Hiort O (2006). Epidemiology and initial management of ambiguous genitalia at birth in Germany. *Hormone Research*, 66, 195–203.

ydym wedi gallu archwilio'r materion hyn nac amrywiaeth o faterion eraill yn drylwyr. Mae'n bwysig gwneud hyn os ydym am bennu a oes gan y Llywodraeth rôl i'w chwarae wrth ymdrin ag unrhyw faterion.

10. Dyna pam ein bod yn cyhoeddi'r alwad hon am dystiolaeth. Bydd yr alwad am dystiolaeth yn cynnig cyfle i bawb, yn arbennig pobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw, i gysylltu â'r Llywodraeth a dweud yn fanwl wrthym am eu profiadau a'r hyn y maent yn meddwl y gallai'r Llywodraeth, neu y dylai'r Llywodraeth ei wneud i wella eu bywydau. Mae'n rhoi cyfle i ni ofyn cwestiynau am y materion yr ydym yn gwybod eu bod o bwys i bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw.

Cwmpas

11. Mae'r alwad am dystiolaeth yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Terminoleg** – rydym yn gwybod bod amrywiaeth fawr o ran barn am y termau a ddefnyddir i ddisgrifio pobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw. Felly, mae'r bennod gyntaf yn gwahodd ymatebwyr i rannu eu barn am ba derminoleg y dylai'r Llywodraeth ei defnyddio yn y dyfodol.
- **Gofal iechyd ac ymyrraeth feddygol** – mae gennym ddiddordeb mewn cael gwybod a yw pobl wedi mynd trwy ymyrraethau/driniaethau meddygol, amgyffrediad pobl a'u profiadau o ddefnyddio neu ystyried gwasanaethau gofal iechyd a sut y gellid gwella gwasanaethau gofal iechyd i weithio yn well i bobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw.
- **Profiadau mewn addysg** – ychydig o dystiolaeth sydd yn bodoli yn y maes hwn ac rydym am ddeall a yw ymatebwyr wedi datgelu eu hamrywiad yn eu sefydliad addysgol, eu profiadau ar hyd eu hoes mewn addysg a sut y gellid gwella'r system addysgol.
- **Gwasanaethau cefnogi** – rydym yn cydnabod bod gwasanaethau cefnogi yn chwarae rôl hanfodol. Rydym am ddeall y math o gefnogaeth y mae pobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn ei defnyddio, eu profiadau wrth wneud hynny ac a ellid gwella'r gwasanaethau.
- **Y Gweithle, budd-daliadau, gwasanaethau chwaraeon a hamdden** – rydym am gasglu tystiolaeth am brofiadau pobl yn y gweithle, o hawlio budd-daliadau a defnyddio gwasanaethau chwaraeon a hamdden. Cododd y rhanddeiliaid bryderon yn y meysydd hyn ac rydym am ddeall rhagor am y materion y maent wedi eu codi.
- **Aseinio rhyw, cofrestru genedigaeth a chywiro tystysgrifau geni** – cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â'r broses o ddiwygio marcwyr rhyw ar dystysgrifau geni pan aseiniwyd/gofrestrwyd y rhain yn anghywir

oherwydd eu hamrywiad. Rydym am ddeall profiadau pobl o'r broses hon a'u barn a oes angen gwella hyn.

- **Materion eraill** - mae cyfle yn yr adran olaf o'r alwad am dystiolaeth i ymatebwyr roi rhagor o wybodaeth am unrhyw faterion eraill y gallant deimlo eu bod yn berthnasol.

Amdanoch Chi

A ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu sefydliad?

Unigolyn

Sefydliad

Dewiswch 'sefydliad' os ydych yn ymateb yn benodol *ar ran* eich sefydliad.

Os ydych yn ymateb fel **unigolyn**, a ydych yn ymateb fel (noder pob un sy'n berthnasol):

Rhywun sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw

Rhywun sy'n gofalu am bobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn personol (e.e. rhiant, gofalwr, gwarcheidwad cyfreithiol)

Rhywun sy'n gweithio yn y proffesiwn gofal iechyd (e.e. meddyg, seicolegydd, nyrs)

Rhywun sy'n gweithio ym maes addysg (e.e. athro, nyrs ysgol, prifathro)

Rhywun sy'n gweithio gyda phobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn broffesiynol tu allan i'r gwasanaethau iechyd neu addysg (e.e. gweithiwr cymdeithasol)

Rhywun sy'n gweithio mewn llywodraeth ganolog neu leol

Academydd

Rhywun arall: _____

Os ydych yn ymateb fel **sefydliad**, a ydych chi'n ymateb fel:

Sefydliad sy'n gweithio yn benodol gyda, neu yn eiriol dros, bobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw a/neu eu teuluoedd.

Math arall o elusen neu sefydliad eiriolaeth

Darparwr gofal iechyd

Sefydliad addysgiadol

- Cwmni/darparwr gwasanaeth preifat
- Corff llywodraethol neu swyddogol
- Corff crefyddol
- Sefydliad arall: _____

Beth yw enw eich sefydliad?

Ym mha ran o'r Deyrnas Unedig y mae eich sefydliad yn gweithredu?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Tu allan i'r Deyrnas Unedig

I sefydliadau yn unig: Hoffai'r Llywodraeth gael eich caniatâd chi i gyhoeddi'r ymatebion gan eich sefydliad i'r alwad am dystiolaeth. A allwch chi gadarnhau sut y byddech yn hoffi i'ch ymateb gael ei drin:

- Cyhoeddi fy ymateb, gan gynnwys enw fy sefydliad
- Cyhoeddi fy ymateb ar ffurf anhysbys yn unig
- Peidiwch â chyhoeddi fy ymateb

I unigolion yn unig:

Hoffai'r Llywodraeth gael eich caniatâd chi i ddefnyddio dyfyniadau dienw o'r atebion y byddwch yn eu rhoi i'r alwad hon am dystiolaeth. Efallai y byddwn am gynnwys y dyfyniadau hyn mewn unrhyw adroddiad am ein canfyddiadau, ond byddwn yn sicrhau na ellir adnabod unrhyw ymatebwr a ddyfynnir.

A ydych yn fodlon i ni gyhoeddi dyfyniadau o'ch atebion?

Ydw

Na

Anelwyd yr alwad am dystiolaeth at dri grŵp o ymatebwyr. Dewiswch y set o gwestiynau yr ydych chi'n teimlo sydd fwyaf perthnasol i chi. Dim ond **un** o'r dewisiadau isod allwch chi ei ddewis. Os byddwch yn meddwl eich bod yn addas ar gyfer mwy nag un grŵp o ymatebwyr a'ch bod yn dymuno ateb mwy nag un set o gwestiynau, gallwch lenwi'r arolwg yr eildro, gan ateb y cwestiynau o adran wahanol.

Adran A – Dyluniwyd y cwestiynau hyn ar gyfer pobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn unrhyw un sy'n meddwl eu bod yn bodloni'r diffiniad hwn.

Adran B – Y rhai sy'n gofalu am bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn bersonol, fel rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, gofalwyr.

Adran C – Y rhai sy'n gweithio gyda phobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw neu yn darparu gwasanaethau iddynt yn broffesiynol, fel, gweithwyr gofal iechyd, academyddion, athrawon, cyflogwyr, gwasanaethau cefnogi a darparwyr gwasanaeth.

Cwestiynau Adran A

Dyluniwyd y cwestiynau yn yr adran hon ar gyfer ymatebwyr sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw.

Pennod 1: Terminoleg

- Rydym yn gwybod bod amrywiaeth fawr o ran barn am y termau a ddefnyddir i ddisgrifio pobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw. Rydym yn ymwybodol hefyd bod y derminoleg a ddefnyddir wedi newid dros amser a'i bod yn amrywio rhwng gweithwyr meddygol proffesiynol, grwpiau rhieni, unigolion ac eraill.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dysgu bod amrywiaeth eang o dermau yn cael eu defnyddio, gan gynnwys 'rhyngrywiol', 'gwahaniaethau mewn datblygiad rhyw', 'amrywiadau mewn nodweddion rhyw', 'amrywiadau mewn datblygiad rhyw', 'gwahaniaeth mewn datblygiad rhyw', 'amrywiadau rhyngrywiol' neu 'datblygiad rhyw amrywiol'. Rydym hefyd wedi dysgu bod yn well gan rai unigolion ddefnyddio'r diagnosis penodol neu ddisgrifiad o'r amrywiad sydd ganddynt, fel Syndrom Klinefelter, yn hytrach na themm cyffredinol. Gellir cael rhagor o fanylion yn y papur technegol sy'n cyd-fynd â'r ffurflen.
- Ar gyfer dibenion y cyhoeddiad hwn, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, rydym wedi mabwysiadu'r term cyffredinol 'amrywiadau mewn nodweddion rhyw'. Rydym yn cydnabod y gall llawer o unigolion ddefnyddio'r term hwn i ddisgrifio eu hamrywiadau. Mae'r Llywodraeth yn ymdrin â hyn â meddwl agored. Yn y cwestiynau isod, rydym yn ceisio barn am y term cyffredinol yr ydym wedi ei ddewis a pha derm ddylai'r Llywodraeth ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Cwestiynau

Pwnc: Terminoleg

1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phenderfyniad y Llywodraeth i ddefnyddio'r term 'amrywiadau mewn nodweddion rhyw' fel term cyffredinol i ddisgrifio pobl sydd â chorff nad yw'n nodweddiadol wrywaidd neu fenywaidd?
 - Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn gwybod
 - Dymuno peidio â dweud
2. Rhestrwch unrhyw dermau eraill y byddai'n well gennych i'r Llywodraeth eu defnyddio yn y dyfodol wrth ddisgrifio pobl sydd â chorff nad yw'n nodweddiadol wrywaidd na benywaidd.

Pennod 2: Iechyd

- Mae'r adran hon o'r alwad am dystiolaeth yn gwahodd ymatebwyr i rannu pa amrywiad(au) sydd ganddynt, disgrifio pa mor agored ydyn nhw gydag eraill am eu hamrywiad, unrhyw ymyraethau meddygol y maent wedi eu cael a'u hamgyffrediad a'u profiadau o ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd.
- Rydym yn holi am y pynciau hyn oherwydd ein bod wedi dysgu trwy ein hymgysylltu â rhanddeiliaid a'r adolygiad o'r ymchwil sy'n bodoli, eu bod yn bwysig i unigolion ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn yr ymyraethau meddygol y mae pobl wedi eu cael, sut y gwnaed penderfyniadau am yr ymyraethau hynny a beth fu eu heffaith. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn profiadau eraill o'r system gofal iechyd, fel argaeledd gwybodaeth a chefnogaeth a'r gallu i gael mynediad at gofnodion meddygol. Gellir cael rhagor o fanylion yn y papur technegol sy'n cyd-fynd â'r ffurflen.
- Mae'r Llywodraeth yn sylweddoli y gall rhannu gwybodaeth am y pynciau hyn fod yn anodd i lawer; felly rydym wedi darparu rhestr o sefydliadau a all roi cefnogaeth. Gellir gweld y dudalen hon ar ôl y cwestiwn olaf yn yr alwad am dystiolaeth.

Cwestiynau

Eich Amrywiad

3. Sut fydddech chi'n disgrifio eich diagnosis a/neu amrywiad(au)?

Dewiswch un neu fwy o'r dewisiadau a restrir isod.³

Os nad yw eich amrywiad chi yn cael ei restru yn y tabl, defnyddiwch y categori 'amrywiad arall' i ddisgrifio'r amrywiad (*os ydych yn teimlo yn gyfforddus yn gwneud hynny*).

Amrywiadau (yn nhrefn y wyddor)	Ymateb
Diffyg redyctas 5-alpha (5-ARD)	<input type="checkbox"/>
Hydrocsylas 17 alpha	<input type="checkbox"/>
Diffyg dadhydrogenas hydrocsysteroid 17-beta	<input type="checkbox"/>
Syndrom Ansensitifwydd i Androgenau – Cyflawn (CAIS)	<input type="checkbox"/>
Syndrom Ansensitifwydd i Androgenau – Rhannol (PAIS)	<input type="checkbox"/>
Affalia / Agensis pidynnol	<input type="checkbox"/>
Ecstroffi'r bledren	<input type="checkbox"/>

³ Daw'r rhestr hon o amrywiadau yn rhannol o'r astudiaeth yn 2016 dan y teitl [Intersex: Stories and Statistics from Australia](#).

Clitoromegali	<input type="checkbox"/>
Hyperplasia Adrenal Cynhwynol – CAH Clasurol	<input type="checkbox"/>
Hyperplasia Adrenal Cynhwynol – CAH heb fod yn glasurol	<input type="checkbox"/>
Cuddgeilliogrwydd (ceilliau heb ddod i lawr)	<input type="checkbox"/>
Syndrom Denys-Drash	<input type="checkbox"/>
Epispadias	<input type="checkbox"/>
Syndrom Frasier	<input type="checkbox"/>
Cam-ddatblygiad Gonadaidd 45,X/46,XY (a elwir weithiau yn Gam-ddatblygiad Gonadaidd Cymysg neu Fosaigism)	<input type="checkbox"/>
Cam-ddatblygiad gonadaidd – Rhannol	<input type="checkbox"/>
Hypospadias	<input type="checkbox"/>
Syndrom Jacobs/XYY	<input type="checkbox"/>
Syndrom Kallmann	<input type="checkbox"/>
Syndrom Klinefelter	<input type="checkbox"/>
Hypoplasia Celloedd Leydig	<input type="checkbox"/>
Microbidyn	<input type="checkbox"/>
Syndrom Mayer-Rokitansky-Küster-Hauser (MRKH)	<input type="checkbox"/>
Aplasia (Dwythell) Müller	<input type="checkbox"/>
Ofa-geillaidd (46 XX)	<input type="checkbox"/>
Syndrom Dwythell Müller Parhaol	<input type="checkbox"/>
Gwryweiddio Wedi ei Beri gan Brogestin	<input type="checkbox"/>
Syndrom Swyer (a elwir weithiau yn Gam-ddatblygiad Gonadaidd Cyflawn)	<input type="checkbox"/>
Syndrom Atchweliad Ceillaidd	<input type="checkbox"/>
DSD Ceillaidd 46,XX (a elwir weithiau yn Syndrom De la Chapelle)	<input type="checkbox"/>
Syndrom Turner	<input type="checkbox"/>
Syndrom Tair X (XXX)	<input type="checkbox"/>
XXY/47	<input type="checkbox"/>
Mosaig XY/XO	<input type="checkbox"/>
Agenesis y fagina	<input type="checkbox"/>

Anhysbys	<input type="checkbox"/>
Amrywiad arall (noder): _____	<input type="checkbox"/>

4. Beth oedd eich oedran pan gawsoch ddiagnosis o amrywiad mewn nodweddion rhyw?

- Nodwch yr oedran (mewn blynyddoedd): _____
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol (Nid wyf wedi cael diagnosis)
- Dymuno peidio â dweud

5. Beth oedd eich oedran pan wnaethoch gael gwybod am eich diagnosis gyntaf?

- Nodwch yr oedran (mewn blynyddoedd): _____
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol (Nid wyf wedi cael diagnosis)
- Dymuno peidio â dweud

6. Sut wnaethoch chi gael gwybod am eich diagnosis gyntaf? *Dewiswch bob un sy'n berthnasol.*

- Trafodaeth gyda chlinigwyr
- Trafodaeth gyda rhieni
- Ar ôl gweld cofnodion meddygol
- Mewn grŵp cefnogi
- Trwy ddamwain, yn ystod apwyntiad meddyg teulu arferol
- Ddim yn berthnasol (nid wyf wedi cael diagnosis)
- Dymuno peidio â dweud
- Arall (noder os gwelwch yn dda): _____

7. Os gallwch chi, a allwch chi ddisgrifio sut yr ymdriniwyd â'r broses o gael gwybod am eich diagnosis.

Bod yn agored

8. **Heddiw**, pa mor agored ydych chi gyda'r bobl ganlynol am fod ag amrywiad mewn nodweddion rhyw?

Dewiswch Bob amser / rhan amlaf/ Weithiau/ Byth/ Dymuno peidio â dweud o'r rhestr isod

Pobl	Dewisiadau	
------	------------	--

	A. Bob amser	B. Rhan amlaf	C. Weithiau	D. Byth	E. Dymuno peidio â dweud
1. Ffrindiau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2. Aelodau o'r teulu yr ydych yn byw gyda nhw (ac eithrio partneriaid)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3. Aelodau o'r teulu nad ydych yn byw gyda nhw (ac eithrio partneriaid)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4. Partner/iaid Presennol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
5. Cydweithwyr	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
6. Pobl eraill yr ydych wedi byw gyda nhw (e.e rhannu fflat).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

9. A ydych yn fodlon ar ba mor agored neu breifat ydych chi am fod ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw gyda'r rhai yr ydych yn rhyngweithio â nhw yn eich bywyd bob dydd?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

10. Sut y mae'r graddau yr ydych yn agored wedi effeithio ar eich bywyd bob dydd, os o gwbl?

Ymyraethau/triniaethau meddygol

Rydym yn gwybod bod rhai pobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw wedi cael un neu fwy o ymyraethau meddygol neu driniaethau yn ystod eu hoes. Hoffem wybod mwy am hyn. Byddwn yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi am eich profiadau. Peidiwch ag ateb oni bai eich bod yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

11. A ydych yn fodlon datgelu gwybodaeth am ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

- Ydw
- Nac ydw

- Ddim yn berthnasol i mi (nid wyf erioed wedi cael unrhyw ymyraethau/driniaethau meddygol)

**Bydd ymatebwyr sy'n ateb 'ydw', yn derbyn y cwestiynau canlynol yn y pwnc hwn. Bydd y rhai a atebodd 'na' neu 'ddim yn berthnasol i mi', yn cael eu cyfeirio at gwestiynau yn y pwnc nesaf: 'amgyffrediad a phrofiadau o wasanaethau gofal iechyd'.*

12. A ydych wedi cael unrhyw ymyraethau neu driniaethau meddygol oherwydd bod ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

**Bydd ymatebwyr sy'n ateb 'do', yn derbyn y cwestiynau canlynol yn y pwnc hwn. Bydd y rhai a atebodd 'naddo', 'ddim yn gwybod' neu 'dymuno peidio â dweud' yn cael eu cyfeirio at gwestiynau yn y pwnc nesaf: 'amgyffrediad a phrofiadau o wasanaethau gofal iechyd'.*

13. Beth oedd eich oed pan gawsoch eich ymyrraeth feddygol neu driniaeth gyntaf oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

- Nodwch yr oedran (mewn blynyddoedd): _____
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

14. A ydych wedi cael unrhyw ymyraethau neu driniaethau meddygol pellach o'ch genedigaeth hyd yn awr oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

15. Os gallwch chi, dewiswch un neu fwy o'r dewisiadau a restrir isod i ddynodi pa ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael yn ystod eich oes oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw.

Os na allwch ddewis un neu fwy o'r dewisiadau a restrir, defnyddiwch eich geiriau eich hun i ddisgrifio'r math o ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael yn y blwch 'arall'.

- Tynnu gonadau

- Ail-lunio, siapio neu newidiadau i fagina/labia/clitoris
- Ail-lunio siapio neu newidiadau i bidyn/ceillgwd
- Mastectomi (codi/ lleihau bronau)
- Ail-lunio/ siapio brest
- Hysterectomi
- Ymyraethau hormonaidd (tabledi/ chwistrelliadau/hufennau)
- Ymlediad
- Orchiopexy/orchidopexy (llawdriniaeth i symud ceilliau i'r ceillgwd)
- Arall (noder os gwelwch yn dda): _____
- Rwyf wedi cael ymyraethau meddygol ond ni allaf gofio beth oeddynt

16. A ydych wedi cael ymyraethau neu driniaethau meddygol ailadroddus oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw? Wrth ddweud 'ailadroddus', rydym yn cyfeirio at ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael ar fwy nag un achlysur ar yr un rhan o'r corff yn ystod eich oes.

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

**Bydd y rhai sydd wedi ateb 'do', yn cael eu cyfeirio at gwestiwn 17. Os gwnaeth ymatebwyr ateb 'naddo', 'ddim yn gwybod' neu 'dymuno peidio â dweud', byddant yn cael eu cyfeirio at gwestiwn 18.*

17. Disgrifiwch pa ymyraethau neu driniaethau meddygol ailadroddus yr ydych wedi eu cael oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw.

18. Yn gyffredinol, a ydych wedi cael profiad positif neu negyddol o ofal ar ôl llawfeddygaeth?

- Positif
- Ddim yn bositif na negyddol
- Negyddol
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

19. A ydych wedi cael mynediad addas at y gofal ar ôl triniaeth canlynol ar ôl cael ymyraethau neu driniaethau meddygol yn ymwneud â bod ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

Gofal ar ôl triniaeth	Dewisiadau			
	A. Do	B. Naddo	C. Ddim yn gwybod	D. Dymuno peidio â dweud
1. Gwybodaeth a chynghor gan weithwyr iechyd proffesiynol ar ôl triniaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2. Cefnogaeth seicogymdeithasol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3. Meddyginiaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

20. Os teimlwch y byddech yn gallu, disgrifiwch sut y mae cael yr ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael yn gysylltiedig â bod ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw wedi effeithio arnoch chi, os o gwbl.

Gall hyn gynnwys effeithiau personol, corfforol a seicolegol, sut y mae wedi effeithio ar eich perthnasau personol ag aelodau o'ch teulu a phartneriaid, ffordd o fyw, bywyd gwaith, yn ogystal â'r effaith ar eich rhyngweithio cymdeithasol ehangach.

Caniatâd ar sail gwybodaeth

Er mwyn i ganiatâd fod yn ddilys, rhaid iddo gael ei roi yn **wirfoddol** ac ar sail **gwybodaeth**, a rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi caniatâd fod â'r **gallu** i wneud y penderfyniad.

I roi 'caniatâd ar sail gwybodaeth', rhaid i'r unigolyn gael yr holl wybodaeth o ran beth mae'r driniaeth yn ei gynnwys, gan gynnwys y manteision a'r risgiau, a oes triniaethau eraill rhesymol, a beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn mynd yn ei blaen.⁴

21. Yn gyffredinol, a ydych chi wedi teimlo eich bod yn gallu rhoi caniatâd ar sail gwybodaeth i'r ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

Do

⁴ <https://www.nhs.uk/conditions/Consent-to-treatment/>

- Naddo
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

**Os bydd ymatebwyr wedi ateb 'do', byddant yn cael eu cyfeirio at gwestiwn 22 ac yna 24 ac ymlaen. Os atebodd ymatebwyr 'na', byddant yn cael eu cyfeirio at gwestiwn 23 ac ymlaen. Os gwnaethant ateb gyda 'ddim yn gwybod', byddant yn cael eu cyfeirio at gwestiwn 24 ac ymlaen. Os gwnaethant ateb 'dymuno peidio â dweud', byddant yn cael eu cyfeirio at gwestiynau dan y pwnc nesaf: 'amgyffrediad a phrofiadau o wasanaethau gofal iechyd'.*

22. Nodwch yr oedran pan wnaethoch chi ddechrau rhoi caniatâd ar sail gwybodaeth i'r ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw

- <10
- 10-12
- 13-15
- 16-17
- 18+

23. Pam eich bod yn teimlo nad oeddech yn gallu rhoi caniatâd ar sail gwybodaeth i un neu fwy o'r ymyraethau neu driniaethau meddygol yr ydych wedi eu cael oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

24. Yn gyffredinol, a ydych wedi cael gwybodaeth addas wrth wneud penderfyniadau am ymyraethau neu driniaethau meddygol a wnaed oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

25. Yn gyffredinol, a ydych wedi cael mynediad at seicolegydd clinigol wrth wneud penderfyniadau am ymyraethau neu driniaethau meddygol a wnaed oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

26. Yn gyffredinol, a roddwyd amser addas i chi wrth wneud penderfyniadau am ymyraethau neu driniaethau meddygol a wnaed oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

- Do
- Naddo
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

27. Sut gall y broses o roi caniatâd ar sail gwybodaeth ar gyfer ymyraethau neu driniaethau meddygol yn gysylltiedig â bod ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw gael ei gwella, os o gwbl?

Canfyddiadau a profiadau o wasanaethau gofal iechyd

Rydym yn gwybod bod pobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw wedi cael profiadau unigryw wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Rydym yn gwybod bod materion fel gwybodaeth arbenigol gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chael mynediad at gofnodion meddygol o bwys i bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw. Mae'r cwestiynau canlynol yn holi am amgyffrediad a phrofiad o wasanaethau gofal iechyd cyhoeddus a phreifat.

28. Os ydych wedi defnyddio gwasanaeth gofal iechyd oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn y tair blynedd diwethaf, yn gyffredinol a ydych wedi cael profiad positif neu negyddol?

Math o wasanaeth gofal iechyd	Yn gyffredinol, roedd fy mhrofiad i...					
	Yn bositif yn gyffredinol	Ddim yn bositif na negyddol	Yn negyddol yn gyffredinol	Ddim yn gwybod	Dymuno Peidio â Dweud	Ni ddefnyddiais y gwasanaeth hwn yn y 3 blynedd diwethaf
Gwasanaeth Meddyg Teulu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ysbyty	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Clinig GIG Arbenigol (gofal pediatrig)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Clinig GIG Arbenigol (gofal glasoed ac oedolion)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Gwasanaethau iechyd meddwl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau iechyd rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau argyfwng	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Clinigau Hunaniaeth o ran Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Clinigau preifat (heb fod yn y GIG)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau y tu allan i'r Deyrnas Unedig (dramor)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau gofal iechyd eraill (noder): _____	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

- b. Disgrifiwch y profiad mwyaf positif a gawsoch wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd yn gysylltiedig â bod ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn y tair blynedd diwethaf. Nodwch yn glir pa wasanaeth(au) yr ydych yn cyfeirio atynt yn eich ateb.
- c. Os teimlwch eich bod yn gallu, disgrifiwch y profiad mwyaf negyddol a gawsoch wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd yn gysylltiedig â bod ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn y tair blynedd diwethaf. Nodwch yn glir pa wasanaeth(au) yr ydych yn cyfeirio atynt yn eich ateb.

29. A oes unrhyw un o'r rhwystrau canlynol wedi eich atal rhag defnyddio gwasanaethau gofal iechyd oherwydd bod gennych amrywiadau mewn nodweddion rhyw?

Rhwystrau	Dewisiadau			
	<i>Do</i>	<i>Naddo</i>	<i>Ddim yn gwybod</i>	<i>Dymuno peidio â dweud</i>
Problemau iechyd corfforol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gorbryder ac ofn ymateb negyddol gan	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

weithwyr iechyd proffesiynol				
Rhagdybiaeth na fydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn deall eich amrywiadau mewn nodweddion rhyw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Problemau yn defnyddio gwasanaeth gofal iechyd yn eich ardal leol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Arall (noder os gwelwch yn dda):_____	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

30. Sut yr ydych yn meddwl y gellid gwella gwasanaethau gofal iechyd i gefnogi anghenion pobl sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn well, os o gwbl? Nodwch yn glir pa wasanaeth(au) yr ydych yn cyfeirio atynt yn eich ateb.

Pennod 3: Addysg

- Mae'r adran hon o'r alwad am dystiolaeth yn canolbwyntio ar brofiadau mewn addysg. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn deall sut y mae rhywun sydd ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn teithio trwy'r system addysg, yn rhyngweithio gyda'i gymheiriaid neu staff yr ysgol a pha effaith y mae'r amrywiad wedi ei gael ar ei fywyd ym myd addysg. Mae hyn yn cynnwys profiadau ar bob lefel addysgol o'r blynyddoedd cynnar i addysg uwch. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae gennym ddiddordeb ynddo a pham yn y papur technegol.

Cwestiynau

Cefndir addysgol

31. Pa mor ddiweddar oeddech chi yn y byd addysg ddiwethaf?
- Rwyf yn dal ym myd addysg
 - Hyd at ddwy flynedd yn ôl
 - Rhwng dwy a deng mlynedd yn ôl
 - Mwy na deng mlynedd yn ôl
 - Dymuno peidio â dweud
32. Beth yw'r lefel uchaf o addysg yr ydych wedi ei gwblhau?
- Addysg Uwchradd (TGAU, Lefel O, neu gyfatebol)
 - Addysg Ôl-uwchradd (Coleg, Lefel A, NVQ3 neu is, neu gyfatebol)
 - Cymhwyster Galwedigaethol (Diploma, BTEC, NVQ4 ac uwch, neu gyfatebol)
 - Gradd Israddedig (BA, BSc, ac ati neu gyfatebol)
 - Gradd Ôl-radd (MA, MSc, ac ati neu gyfatebol)
 - Doethuriaeth (PhD, DPhil, ac ati neu gyfatebol)
 - Dim un o'r uchod
 - Dymuno peidio â dweud
33. Pa fath o sefydliad addysgol wnaethoch chi ei fynychu yn ystod y rhan fwyaf o'ch addysg ysgol?
- Ysgol gynradd/uwchradd prif ffrwd
 - Ysgol arbennig
 - Darpariaeth wahanol, gan gynnwys unedau atgyfeirio disgyblion
 - Ysgol ysbyty

- Addysg gartref
- Cyfuniad o addysg gartref ac ysbyty
- Arall, noder os gwelwch yn dda: _____

Datgelu i staff addysgol

34. A wnaeth eich rhiant/gofalwr/gwarcheidwad cyfreithiol drafod eich amrywiadau mewn nodweddion rhyw ag unrhyw un o'r canlynol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Staff yn eich sefydliad blynyddoedd cynnar
- Staff yn eich ysgol gynradd
- Staff yn eich ysgol uwchradd
- Staff yn eich sefydliad addysg bellach
- Staff yn eich sefydliad addysg uwch
- Staff yn eich sefydliad addysg gwahanol/arbennig (noder): _____
- Ni thrafodwyd y mater erioed
- Ddim yn gwybod
- Dymuno peidio â dweud

Profiadau yn yr ysgol

Rydym yn gwybod bod y ffactorau canlynol yn bwysig i bobl ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

- Rhyngweithio gyda'ch cymheiriaid, gan gynnwys llunio cyfeillgarwch, profiadau o fwlio;
